# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 21AIN GORFFENNAF, 2016**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Swyddfa'r Cyngor,**

**Cae Penarlâg, Dolgellau, LL40 2YB**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13 Gorffennaf 2016)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels

Louise Hughes

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Angela Russell (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd John Pughe Roberts

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 8

'The Firecat Country House', Camlan Uchaf, Mallwyd, SY20 9EP

Ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 GORFFENNAF 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – FIRECAT COUNTRY HOUSE B&B AND LAND, CAMLAN UCHAF, CAMLAN, MALLWYD SY20 9EP** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Firecat Country House B&B, Camlan Uchaf, Camlan, Mallwyd, SY20 gan Mr Robin Worgan o'r un cyfeiriad.
Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu, unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir am yr hawl i gyflenwi alcohol tu fewn a thu allan i'r eiddo tan 01:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos.
Gofynnir hefyd am yr hawl i gynnal adloniant tu mewn a thu allan i'r eiddo hyd at 01:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos.
Mae'r eiddo yn cael ei redeg fel gwesty gwely a brecwast bychan , gyda thair llofft yn cael eu gosod i westeion.
Nododd yr ymgeisydd yn y cais y byddai gweithgareddau trwyddedig yn debygol o gael eu cynnal yn amlach yn dymhorol; oddi fewn i'r eiddo neu du allan mewn Gazebo/Pabell.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol -** Ar ac Oddi ar yr Eiddo | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Cerddoriaeth fyw -** dan do ac awyr agored` | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio –** dan do ac awyr agored | Llun – Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Perfformiadau dawns** – o dan do ac awyr agored | Llun – Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Dramâu -** o dan do ac awyr agored | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Ffilmiau -** o dan do ac awyr agored | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Adloniant Arall -** o dan do ac awyr agored | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos -** o dan do ac awyr agored | Llun - Sul<br>**23:00 – 05:00** |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Llun - Sul<br>**00:00-23:59** |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu – fel rhan o'r cais gwreiddiol**

- Gwybodaeth cyfyngiad oedran 'Her 25'
- Bwriedir gweithredu i sicrhau na fydd unrhyw oddefgarwch o unigolion sydd yn ymgymryd â chyffuriau nac ychwaith ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dreisgar
- Hyfforddiant i staff
- Monitro cyson gan staff i sicrhau nad ydyw cwsmeriaid yn creu niwsans nac yn ymddwyn yn afreolus neu feddw
- Monitro gan staff i sicrhau nad oes cyffuriau yn cael eu cymryd nai gwerthu.
- Cydymffurfio a rheolau diogelwch tan.
- Darpariaeth cymorth cyntaf
- Rheoli sŵn

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M o'r cais (tudalen 18)

**YMGYNGHORIAD**

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Gwrthwynebiad |
| Cyngor Cymuned | Gwrthwynebiad |
| Heddlu | Sylwadau – dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Sylwadau - dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Gwynedd –Iechyd yr Amgylchedd | Sylwadau - dim gwrthwynebiad yn dilyn cyflwyniad o gais diwygiedig |
| Preswylwyr cyfagos | 5 llythyr yn gwrthwynebu |

**Gwrthwynebiad - Aelod lleol**

Mae'r aelod lleol yn gwrthwynebu'r cais am drwydded ar gyfer cynnal gweithgareddau trwyddedig i rai nad ydynt yn breswylwyr yn y gwesty. Nid yw yn gwrthwynebu caniatâd i werthu alcohol i breswylwyr yn unig.
Gwrthwynebir ar y sail fod digon o eiddo trwyddedig eraill; a bod gweithgareddau yn debygol o darfu ar drigolion cyfagos.
Mae'r aelod o'r farn nad yw'r eiddo yn addas ar gyfer defnydd fel eiddo trwyddedig.
.

**Gwrthwynebiad – Cyngor Cymuned**

Derbyniwyd e bost yn cyfleu gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned i drwydded ar gyfer gweithgareddau trwyddedig ar gyfer rhai nad ydynt yn breswylwyr. Nid oedd gwrthwynebiad i drwydded i breswylwyr yn unig.
Fe fanylir ar sail gwrthwynebiad y Cyngor; gan nodi fod yr eiddo yn y Parc Cenedlaethol; fod stoc amaethyddol ar yr eiddo a bod pryderon ynghylch ag addasrwydd mynediad i'r eiddo.
Mae'n bwysig nodi nad yw'r materion hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**

Nid oes gan yr Heddlu unrhyw sail i wrthwynebu'r cais ; ac yn dilyn ymweliad i'r eiddo ; cytunodd yr ymgeisydd i weithredu Polisi 'Her 25' . Fe gytunodd yr ymgeisydd hefyd i gael amod ar ei drwydded fod rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu os oes unrhyw ddigwyddiad ar yr eiddo ar gyfer mwy na 50 o bobl.

**Sylwadau ac argymhellion Gwasanaeth Tan ac Achub**

Nodwyd nad oedd y gwasanaeth tan yn gwrthwynebu'r cais , ond rhoddwyd argymhelliad o ran y cyfanswm niferoedd a ddylid eu caniatáu yn yr ystafelloedd cyhoeddus yn yr adeilad.

**Sylwadau ac argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd**

Gan nad oedd yn glir ar y cais y math o ddigwyddiadau ac amlder y digwyddiadau a fwriedir eu cynnal tu allan i'r eiddo - fe ohebwyd gyda'r ymgeisydd er mwyn ceisio mwy o fanylion. Nid oedd digon o fanylion ar y cais i benderfynu os oedd y rhagofalon cywir yn debygol o gael eu gweithredu i sicrhau nad oedd yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio. Datganwyd pryder wrth yr ymgeisydd fod potensial i gerddoriaeth wedi ei recordio a cherddoriaeth fyw; tu mewn a thŷ allan - 7 diwrnod yr wythnos tan 01:00 y bore greu sŵn ac effeithio ar drigolion cyfagos. Datganwyd hefyd fod yr Uned Iechyd Amgylchedd yn debygol o wrthwynebu'r cais fel yr oedd yn sefyll.
Fe dderbyniwyd ymateb gan yr ymgeisydd yn nodi fod bwriad i gynnig trefnu dathliadau bychan megis priodasau yn achlysurol iawn yn unig yn ôl y galw - gyda'r bwriad o ddefnyddio 'Marquee' ar yr eiddo.
Fe fu trafodaeth bellach gyda'r ymgeisydd parthed rhagofalon sŵn - gyda'r canlyniad fod yr ymgeisydd wedi penderfynu diwygio ei gais a pheidio gofyn am yr hawl i adloniant rheoledig tu mewn a thu allan ar ôl 11 yr hwyr. Mae'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn caniatáu cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio o dan amgylchiadau penodol tan 11 yr hwyr.
Nodwyd yn e bost y Swyddog Iechyd yr Amgylchedd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i elfennau arfaethedig gwerthiant alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos . Gweler manylion llawn y drafodaeth rhwng y Swyddog a'r ymgeisydd yn nhudalennau 37 i 42 o'r atodiad i'r adroddiad.

.

**Gwrthwynebiad - preswylwyr cyfagos**

Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan 5 unigolyn sydd yn preswylio neu yn ffermio tir cyfagos.
Mae'r gwrthwynebiadau yn gyffredinol yn cael eu gwneud ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Diogelwch y Cyhoedd.

Fe nodir y pryderon penodol canlynol mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu hyn sef -

- Lleolir yr eiddo mewn ardal wledig ddistaw ac fe fydd sŵn o ddigwyddiadau megis priodasau mewn 'Marquee' yn amharu ar drigolion cyfagos ac yn dychryn y da byw.
- Mae'r lleoliad yn beryglus

Fe nodir y pryderon canlynol yn ogystal -

- Anaddasrwydd y ffordd breifat gul ar gyfer cynnydd mewn trafnidiaeth
- Dim lle i barcio cerbydau ar yr eiddo
- Eiddo ddim yn addas fel eiddo trwyddedig

Mae rhai o'r preswylwyr yn nodi na wrthwynebir darpariaeth o weithgareddau trwyddedig ar gyfer preswylwyr yn unig, ac yn cynnig cyfyngu'r amseroedd arfaethedig ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad, tudalennau 46 i 57 o'r atodiad.

**CAIS DIWYGIEDIG**

Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig ar e bost gan yr ymgeisydd ei fod yn diwygio ei gais yn dilyn trafodaethau i gynnwys alcohol a lluniaeth hwyr y nos yn unig. Nodwyd y byddai yn dymuno manteisio ar eithriadau'r Ddeddf Gerddoriaeth Fyw 2012 ar gyfer dangos ffilmiau, perfformiadau dawns, cerddoriaeth fyw ac wedi recordio tan 11 yr hwyr yn unig. Gweler tudalen 1 o'r atodiad ar gyfer y manylion llawn.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais diwygiedig yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.